OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 3207

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2013

**Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010(**1**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli a chwmpas) —

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniad o Rheoliad 242/2010; a

(b) yn lle paragraff (3) rhodder y paragraff a ganlyn —

"(3) Mae unrhyw gyfeiriad at Atodiad i Gyfarwyddeb 82/475, Cyfarwyddeb 2002/32, Cyfarwyddeb 2008/38 neu Reoliad 767/2009 yn gyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

(3) Yn lle paragraff (1) o reoliad 4 (gorfodi gofynion Rheoliad 767/2009), rhodder y paragraff a ganlyn —

"**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a geir yn Erthygl 32, mae unrhyw berson —

(a) sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau Rheoliad 767/2009 a bennir yn Atodlen 1 neu'n methu â chydymffurfio â hwy; neu

(b) sy'n gosod ar y farchnad neu sy'n defnyddio unrhyw fwyd anifeiliaid sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 6(1) neu 8, yn euog o dramgwydd.".

(4) Yn lle cynnwys Atodlen 1 (darpariaethau penodedig Rheoliad 767/2009) rhodder cynnwys Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2010/2652 (Cy.220).